



Bwriad y Gronfa Llesiant Cymunedol yw cynorthwyo prosiectau cynaladwy a fydd o fudd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol i gymunedau Parc Cenedlaethol Eryri.

Prosiectau Perthnasol

Bydd unrhyw brosiect sydd yn gwella'r amgylchedd lleol ac yn fuddiol i lesiant y gymuned, ac sydd yn cwrdd â nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn deilwng am nawdd. Mae gofyn i'r prosiectau allu dangos eu bod un ai

- a) *yn gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol ardal e.e. gwella neu amddiffyn yr amgylchedd lleol drwy dirlunio, plannu coed cynhenid neu ailosod / trwsio nodweddion o ddi-ddordeb lleol,*
- b) *yn hyrwyddo posibiliadau ar gyfer dealltwriaeth a mwynhad nodweddion arbennig yr ardal e.e. cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd am yr amgylchedd lleol a'r Parc Cenedlaethol a / neu gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â hanes ac etifeddiaeth ddiwylliannol y gymuned drwy gyfrwng byrddau arddangos a / neu daflenni; neu*
- c) *yn annog parhad economaidd a chymdeithasol cymunedau o fewn y Parc e.e. mapiau pentrefi / astudiaethau cymunedol, cylchlythyrau pentref a gwyliau / arddangosfeydd.*

Amodau

- 1) Mae'n rhaid i'r holl brosiectau fod wedi eu lleoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.
- 2) Dylai prosiectau ymdrechu i ddefnyddio cynnyrch a deunyddiau lleol, lle bo hynny'n ymarferol.
- 3) Mae'n rhaid i brosiectau fod â'r hawl / caniatâd cynllunio perthnasol.
- 4) Dylid dangos ymroddiad i werth tymor hir y cynllun drwy reolaeth a chynnal a chadw.
- 5) Rhoddir nawdd i brosiectau gorffenedig neu i waith gorffenedig sydd yn rhan o gynllun mwy.
- 6) Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hawlio'r taliad yn ôl os na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen fel y cytunwyd.
- 7) Dylid cynnwys manylion ffynonellau nawdd eraill y ceisiwyd amdanynt ac a dderbyniwyd ar gyfer y prosiect.
- 8) Mae'n rhaid i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gael gwybod am, a chytuno, i unrhyw newidiadau sylweddol i gynllun ar ôl i gais am nawdd gael ei wneud.
- 9) Bydd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'r hawl i fonitro gwariant nawdd gan gynnwys arolygu anfonebau gyda derbynebau, ac arolygu deunyddiau, adnoddau ac offer ar safle sydd wedi ei bwrcasu gyda'r nawdd.
- 10) Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyhoeddi manylion y nawdd a ddyfernir.
- 11) Mae'n ofynnol i grwpiau sy'n derbyn nawdd gydnabod hynny mewn unrhyw gyhoeddusrwydd.

Pwy all wneud Cais?

Derbynnir ceisiadau am nawdd gan Gyngorau Cymuned, grwpiau gwirfoddol, grwpiau ieuencid, grwpiau merched (Sefydliad y Merched, Merched y Wawr ayb) ac ysgolion. Nid yw unigolion, cwmnïau a chyrff statudol yn gymwys am nawdd. Bydd y grant a ddyfernir rhwng £50 a £500 fel rheol ac ni fydd yn fwy na 50% o gyfanswm costau'r prosiect. Gall 50% y prosiect gynnwys llafur gwirfoddolwyr a fydd yn cael ei amcangyfrif ar raddfa o £8.21 yr awr.

Mae'r ffurflen yn rhwydd i'w chwblhau – cysylltwch am sgwrs a mwy o wybodaeth: Swyddog Gwirfoddoli a Lles, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF

Ffôn: (01766) 772215 E-bost – Etta.Trumper@eryri.llyw.cymru